Ysgol Glan Conwy,
Glan Conwy,
Conwy.
LL28 5ST

Pennaeth: Mrs Eifiona Price Williams
Tel: 01492 580421
e-bost: swyddfa@glanconwy.conwy.sch.uk

Annwyl Rieni / Gofalwyr, 22/03/24

Mae hi bron yn wyliau'r Pasg ac mae pawb yn haeddu seibiant ar ôl gweithio mor galed.
Rydym wedi cael tymor prysur gyda llawer o weithgareddau amrywiol gyda'r plant i gyd yn mwynhau ac yn dysgu pethau newydd.

Yn ystod yr hanner tymor yma mae'r plant wedi dathlu Dydd Gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr, mae'r plant wedi cael dau weithdy iaith arwyddo; mae rhai wedi gweld perfformiad i blant gan Opera Cenedlaethol Cymru; rhai plant wedi cael hyfforddiant pêl droed, rygbi a tenis; plant o frig yr ysgol wedi cystadlu mewn twrnament pêl droed ymysg profiadau eraill.

Yr ydym yn cau **dydd Gwener Mawrth 22ain** am bythefnos. Fe fydd yr ysgol yn ail agor i blant **Dydd Mawrth Ebrill 9fed.**
Dechrau tymor nesaf mae gan dosbarth Celyn ac Onnen ymweliad â Xplore yn Wrecsam tra bydd dosbarth Draenen Wen a Derwen yn cael gweithdai ganddynt. Fe fydd mwy o weithgareddau ac ymweliadau yn cael eu trefnu ac fe fyddwn yn rhannu rhain efo chi ar ôl y Pasg.
Cofiwch am y casgliad o ddillad ar gyfer Basg2School hefyd. Cewch ddod a nhw i mewn i'r ysgol dydd Llun a dydd Mawrth 15fed & 16eg o Ebrill.

Parcio
Gofynnwn yn garedig i chi fod yn ofalus wrth barcio pan yn gollwng neu pigo eich plant i fyny o'r ysgol. Yn anffodus nid ydyw'r ffordd wedi ei gynllunio ar gyfer ein oes fodern a thrafnidiaeth heddiw ac mae cael safle adeiladu wrth yr ysgol yn gwneud pethau yn anoddach. Peidiwch a pharcio ar y zig zag neu ar gorneli os gwelwch yn dda mae hyn yn beryglus i bawb eraill. Gan mai tymor yr haf sydd y tymor nesaf a gan obeithio am dywydd braf yna hwyrach ei bod yn haws cerdded i'r ysgol ar adegau yn hytrach na defnyddio'r car?
Hefyd, pan rydych yn pigo eich plentyn i fyny o'r ysgol a wnewch chi gerdded i fyny at y man maent yn cael eu gollwng os gwelwch yn dda fel nad ydynt yn cael eu gadael i'r ffordd. Diolch.

Ffarwel
Hoffem oll ddiolch o galon i Anti Margi, Mrs Margaret Cassidy, am 27 mlynedd o wasanaeth yng ngegin yr ysgol. Dymunwn y gorau iddi ar ei hymddeoliad gan obeithio ei gweld ar ôl y Pasg i ddiolch iddi ac i ffarwelio â hi yn ffurfiol.

Mwynhewch y Pasg, gwyliau haeddiannol iawn i bawb.

Yn gywir,

E. Price Williams

Glan Conwy,
Conwy.
LL28 5ST

Pennaeth: Mrs Eifiona Price Williams
Tel: 01492 580421
e-bost: swyddfa@glanconwy.conwy.sch.uk

Dear Parents/ Carers, *22/03/24*

It is nearly the Easter holidays and everyone has earned a well needed rest after all the hard work. We have had a busy term full of various activities with the children learning a host of different skills.

During this half term the children have celebrated St. David's Day and World Book Day, they have had two workshops to help learn some sign language; some children have been to watch and take part in a performance for children by the Welsh National Opera at Venue Cymru; some children have had football, rugby and tennis training; some older children have taken part in a football tournament amongst other activities and experiences.

We will be closing today for the Easter holidays Friday March 22nd and will re-open for pupils on ***Tuesday, 9/4/24.***

At the beginning of next term Celyn and Onnen classes are visiting Xplore in Wrexham whilst Derwen and Draenen Wen classes will be taking part in workshops held by Xplore here in school. There will be more activities and visits taking place and these dates will be shared with you after Easter.
May I also remind you about our collection of clothes for Bag2School. You can bring your clothes into school on Monday or Tuesday April 15th & 16th. (can use normal binbags)

Parking
We politely ask that you take care where you park when dropping off or picking up your child from school. Unfortunately, the road was not built for our modern day traffic and at the moment we have a busy building site right by the school. Please do not park on the zig zag lines at any time or on street corners as this is dangerous for everyone else. Next term is the summer term when hopefully the weather should improve. Why not walk or ride a bike to school on some days if you can, instead of using your car?
Also, could I ask parents to walk up the hill slightly to pick up their children please from where the teachers are. It is safer for them to be picked up there than in the road. Thank you.

Farewell
We would like to pass on our heartfelt thanks to Aunty Margi, Mrs Margaret Cassidy, for 27 years of loyal service in our school kitchen. We wish her all the best for her retirement and hope to see her after Easter, to formally thank her and wish her farewell.

Enjoy the Easter break, a truly well-deserved break for all.

Yours sincerely,

E. Price Williams